TGAU Gwneud-i-Gymru

Asesiad Effaith Integredig wedi'i Ddiweddaru

Mehefin 2023

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.cymwysterau.cymru

1 Cyflwyniad

1.1 Rhwng 4 Hydref ac 14 Rhagfyr 2022, buom yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer dylunio cymwysterau TGAU newydd, Gwneud-i-Gymru, a chymwysterau cysylltiedig eraill. Roedd hyn yn cynnwys eu pwrpas arfaethedig, cynnwys lefel uchel, a'u trefniadau asesu.

1.2 Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, cyhoeddwyd ein Asesiad Effaith Integredig mewn perthynas â'r cynigion dylunio hynny. Roedd yr Asesiad Effaith Integredig hwn yn cynnwys ein Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Roedd hefyd wedi ystyried sut y gallai ein cynnig helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol[1], yn ogystal â chyfrannu at y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[2], â'n hamcanion ategol[3].

1.3 Roedd ein hasesiad yn disgrifio cost ac effeithiau cyflawni posibl y cynigion yn yr ymgynghoriad ar wahanol grwpiau o randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, ysgolion a cholegau, cyrff dyfarnu a sefydliadau addysg uwch. Roedd hefyd yn nodi ein barn am effeithiau posibl y cynigion mewn perthynas â grwpiau gwahanol, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac unrhyw effeithiau cronnol a nodwyd ar draws yr ystod o gymwysterau TGAU newydd Gwneud-i-Gymru a chymwysterau eraill.

1.4 Gwnaethom nodi'r effeithiau posibl hyn yn y ddogfen ymgynghori a cheisio barn arnynt. Gwnaethom ofyn y cwestiynau canlynol:

- A oes unrhyw effeithiau nad oeddem wedi'u nodi yn deillio o'r cynigion? Os oes, beth yw'r effeithiau hyn ac a oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i leihau effaith y cynigion.
- A oes unrhyw gostau, arbedion neu fanteision eraill yn gysylltiedig â'r cynigion nad ydym wedi'u nodi. Os oes, rhowch ffigyrau amcangyfrifedig lle bo hynny'n bosibl.
- A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylem ei hystyried wrth werthuso costau a manteision y cynigion?

[1] https://www.llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-trosolwg
[2] https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/
[3] https://qualifications.wales/media/dtmpe5ew/wellbeing-future-generations-objectives-2018-w.pdf

1.5 Gwnaethom egluro y byddem yn defnyddio'r adborth o'r ymgynghoriad i barhau i ddiweddaru ein hasesiad effaith integredig ac y byddai'n llywio ein penderfyniadau terfynol ar y gofynion dylunio ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig eraill. Gwnaethom hefyd ymrwymo i weithio gyda chyrff dyfarnu perthnasol a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod yr effeithiau a nodwyd yn cael eu hystyried yn ofalus drwy gydol y broses o ddatblygu cymwysterau.

2 Effeithiau a nodwyd gan ymatebwyr

2.1 Cododd yr ymatebwyr nifer o bwyntiau am effeithiau posibl ein cynigion, yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer dulliau amgen a allai leihau'r effaith ar y rhai y mae ein cynigion yn effeithio arnynt.

2.2 I raddau helaeth, gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ar yr effeithiau a nodwyd eisoes fel rhan o'n hasesiad effaith integredig. Wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, rhoddodd rhai ymatebwyr adborth ar yr ystod arfaethedig o bynciau a fydd ar gael, gan gynnwys y penderfyniadau a wnaed mewn ymgynghoriadau blaenorol i gyfuno ac integreiddio pynciau presennol.

2.3 Mae'r adran isod yn nodi'r effeithiau allweddol a nodwyd gan ymatebwyr a sut y gellid lliniaru effeithiau negyddol posibl.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Effeithiau ar Ddysgwyr (gan gynnwys Ymgeiswyr Preifat)

2.4 Soniodd nifer o ymatebwyr am y baich asesu posibl, yn enwedig os bydd maint yr asesiad di-arholiad (NEA) yn cynyddu'n sylweddol o gymharu â'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, a'r effaith negyddol y gallai hynny ei chael ar iechyd a lles dysgwyr. Mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch cael asesiad di-arholiad ar draws nifer fawr o bynciau, a allai gyfrannu at bwysau parhaus ar ddysgwyr drwy gydol y flwyddyn academaidd, gyda dysgwyr nid yn unig yn teimlo eu bod yn cael eu hasesu'n barhaus ond hefyd y bydd llawer o'r hyn y maent yn ei gwblhau yn yr ystafell ddosbarth yn cael effaith uniongyrchol ar ganlyniadau eu cymwysterau.

2.5 Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at effeithiau canlyniadol posibl cynnydd mewn asesu di-arholiad. Roedd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o golli amser addysgu a dysgu i baratoi ar gyfer asesiadau di-arholiad a'u cwblhau, tarfu posibl ar addysgu a dysgu mewn pynciau eraill os yw dysgwyr yn cael eu tynnu allan o wersi i gwblhau asesiad di-arholiad, a'r effeithiau posibl ar y berthynas rhwng y dysgwr/athro o ran gofyn am adborth ar waith a derbyn yr adborth hwnnw. Nododd ymatebwyr fod dysgwyr sy'n symud ysgol o fewn blwyddyn academaidd yn rhai a allai gael eu heffeithio'n negyddol os yw asesiad di-arholiad yn nodwedd arwyddocaol o fewn cymwysterau. Er enghraifft, gallai gorfod ymgymryd ag asesiad di-arholiad ar amser ar wahân i'w cyfoedion olygu llwyth gwaith ychwanegol i'r dysgwr a'r ysgol dan sylw.

2.6 Ystyriwyd y gallai'r cynnydd arfaethedig mewn asesu di-arholiad ar draws yr ystod o gymwysterau newydd, Gwneud-i-Gymru effeithio'n negyddol ar ymgeiswyr preifat. Roedd hyn yn bennaf mewn perthynas â hygyrchedd canolfannau arholi ac asesiadau digidol, a oedd eisoes yn cael ei weld gan rai yn anodd i ddysgwyr o'r fath. Clywsom hefyd bryderon y gallai cynnydd yn yr asesiadau di-arholiad sydd wedi'u marcio'n fewnol olygu bod ymgeiswyr preifat yn cael eu hasesu'n annheg o gymharu â'u cyfoedion a fyddai'n destun rhagfarn gadarnhaol anymwybodol oherwydd bod athrawon yn gyfarwydd â nhw.

2.7 Teimlai'r ymatebwyr y byddai angen ymateb cydgysylltiedig gan gyrff dyfarnu, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru i sicrhau trefniadau ymarferol, wedi'u hariannu ar gyfer pob dysgwr sy'n gallu sefyll arholiadau mewn canolfan leol iddynt. Roedd rhai o'r camau a awgrymwyd gan ymatebwyr i liniaru effeithiau posibl o'r fath yn cynnwys:

- cynnig opsiynau papur ysgrifenedig 'amgen i NEA' i ymgeiswyr preifat, a chynnwys hyn yn y fframwaith rheoleiddio.
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig mynediad at arholiadau a chymorth o ran asesiadau di-arholiad i ymgeiswyr preifat.
- caniatáu goruchwyliaeth o bell gyda chydrannau asesu di-arholiad.

2.8 Clywsom bryderon y gallai'r diwygiadau hyn gael effaith negyddol ar y carfannau cychwynnol o ddysgwyr a fyddai'n sefyll y cymwysterau hyn yn 2025 a 2026. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â'r diffyg cynefindra â'r newidiadau. Nododd ymatebwyr y bydd ysgolion a cholegau yn cymryd amser i ddeall goblygiadau'r newidiadau i bynciau unigol, ac i adolygu ac addasu eu hymagwedd at addysgu a pharatoi dysgwyr ar gyfer asesiadau. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn pryderu na fyddai'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi dysgwyr ar yr un lefel â'r rhai sy'n bodoli ar gyfer cymwysterau presennol.

2.9 Dywedodd ymatebwyr y gallai cymharu'r cymwysterau newydd â'r rhai a gaiff eu cymryd mewn awdurdodaethau eraill ar draws y DU a thu hwnt o bosibl gael effaith negyddol ar fynediad dysgwyr o Gymru i addysg bellach a phrifysgol wrth gystadlu â dysgwyr o'r tu allan i Gymru. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr a gododd y mater hwn at yr ystod arfaethedig o gymwysterau Saesneg, mathemateg a rhifedd a'r gwyddorau.

2.10 Defnyddiodd yr ymatebwyr y cyfle hwn hefyd i fynegi pryder nad oedd yr ystod arfaethedig o gymwysterau a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad hwn yn bodloni anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a dysgwyr mwy abl a thalentog (MAT). Teimlwyd bod angen cymwysterau a chymorth ychwanegol i fodloni eu hanghenion.

2.11 Er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol posibl hyn, awgrymodd ymatebwyr amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys: cyfathrebu clir â phrifysgolion ynghylch gwerth y cymwysterau newydd a gymerir gan ddysgwyr yng Nghymru; sicrhau bod cydbwysedd ac amseriad asesiadau ar draws yr ystod o gymwysterau TGAU a chymwysterau eraill yn gymesur ac yn gyraeddadwy; ac ailystyried y dewis o gymwysterau sydd ar gael ar gyfer disgyblaethau pwnc unigol.

Effeithiau ar Ganolfannau (Ysgolion, Colegau a darparwyr dysgu 14-16 eraill)

2.12 O ystyried y pwysau parhaus ar weithlu ysgolion yn ystod y cyfnod hwn o ddiwygio, roedd un o'r prif effeithiau a nodwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â hylawrwydd y cymwysterau newydd. Roedd un thema benodol yn ymwneud â'r goblygiadau llwyth gwaith posibl sy'n gysylltiedig â symud tuag at fwy o asesiadau di-arholiad a phwysoliad uwch. Roedd yr effeithiau posibl yn cynnwys:

- goruchwylio asesiadau di-arholiad (gan gynnwys dysgwyr sy'n gymwys i gael amser ychwanegol a threfniadau ar gyfer y rhai sy'n absennol ar gyfer rhan o'r asesiad).
- dyfeisio a gweithredu prosesau ar gyfer marcio gwaith ac ar gyfer sicrhau ansawdd a chymedroli mewnol cyn cyflwyno sampl i'w gymedroli'n allanol.
- sicrhau bod polisïau addas yn eu lle i fynd i'r afael â'r posibilrwydd y bydd rhieni a dysgwyr yn herio canlyniadau.

2.13 Wrth gefnogi egwyddor ac ethos cwricwlwm ysgol wedi'i gynllunio'n lleol, nododd un ymatebwr y baich cynyddol posibl ar athrawon o ran rhoi tasgau asesu di-arholiad generig a osodir gan y corff dyfarnu mewn cyd-destun. Roedd hyn hefyd yn cael ei weld fel ffactor lle mae llwybrau dewisol o fewn cymwysterau.

2.14 Teimlai rhai y byddai cynnydd o'r fath yn y llwyth gwaith yn effeithio ar yr amser sydd ar gael i athrawon gynllunio a darparu profiadau dysgu ystyrlon i'w dysgwyr. Tynnodd eraill sylw at y cynnydd yn y gwaith o weinyddu asesiadau di-arholiad fel rhywbeth a allai wneud addysgu yn yrfa lai deniadol, gan nodi hyn fel pryder sylweddol yng nghyd-destun recriwtio a chadw athrawon.

2.15 Er mwyn lliniaru rhai o'r effeithiau posibl hynny, ac i alluogi athrawon i gynllunio'n effeithiol, nododd ymatebwyr nifer o fesurau pwysig y dylid eu cymryd. Yn gyntaf, trwy ddarparu eglurder yn gynnar i ysgolion ar ddyluniad terfynol y cymwysterau. Yn ail, trwy osod amserlen glir ar gyfer pryd yr oedd arholiadau ac asesiadau yn debygol o ddigwydd trwy gydol y cwrs astudio. Ac yn olaf, trwy sicrhau fod adnoddau a chymorth ar gael yn amserol, gan gynnwys arweiniad a hyfforddiant ar farcio a chymedroli gan y corff dyfarnu.

2.16 Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr y byddai argaeledd adnoddau, gan gynnwys gofod ymarferol ar gyfer addysgu a mynediad at dechnolegau digidol i gefnogi dysgu ac asesu, yn effeithio ar ba mor hylaw y bydd y cymwysterau i ysgolion eu darparu. Teimlwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol i bynciau lle byddai tasg asesiad di-arholiad sylweddol yn cael ei chyflawni dan amodau rheoledig. Tynnwyd sylw hefyd at effaith bosibl asesiadau digidol ar seilweithiau TG mewn ysgolion llai neu rai ag ystadau hŷn.

2.17 Clywsom am yr angen i sicrhau bod digon o gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn cael eu darparu a bod y system yn cael ei chefnogi yn ei gwaith i ymgorffori a chymhwyso themâu trawsbynciol y cwricwlwm wrth gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn. Ystyriwyd bod caniatáu capasiti yn y system i'r proffesiwn ymgysylltu â chyfleoedd o'r fath, yn ogystal â dyluniad y cymwysterau newydd yn ehangach, yn hollbwysig.

2.18 Nododd ymatebwyr hefyd y goblygiadau o ran cost i ysgolion mewn perthynas â sicrhau cyfleoedd dysgu proffesiynol, adnoddau ac offer addysgu newydd, a recriwtio athrawon newydd i feysydd pwnc newydd.

Effeithiau ar Gyrff Dyfarnu

2.19 Clywsom am bwysigrwydd cydnabod bod nodweddion a gyflwynir yn y cynigion dylunio, megis pwysoliad cynyddol yr asesiad di-arholiad a phenderfyniad ynghylch pryd y bydd asesiadau ar gael, yn debygol o effeithio ar ganlyniadau cymwysterau.

2.20 Yn unol â'n Hamodau Cydnabod Safonol, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod pob cymhwyster y mae'n ei ddarparu yn addas at y diben. Er mwyn gwneud hynny, rhaid iddo sicrhau bod cymhwyster yn cynhyrchu canlyniadau asesu y gellir eu cymharu mewn safonau rhwng asesiadau o fewn y cymhwyster hwnnw, rhwng cymwysterau tebyg (gan gynnwys y rhai a gynigir gan gyrff dyfarnu eraill), a thros amser.

2.21 Yn y cyd-destun hwnnw, pwysleisiodd un ymatebwr bwysigrwydd darparu digon o eglurder a thryloywder i randdeiliaid ynghylch a fyddai canlyniadau cymwysterau yn 2027 fwy neu lai yr un fath â'r gyfres bresennol o gymwysterau TGAU, gan y byddai penderfyniadau polisi o'r fath yn cael effaith uniongyrchol ar ddyluniad cymwysterau. I gael rhagor o wybodaeth am ein hymateb i'r mater pwysig hwn, gweler ein hadran 'Safonau a Chymaroldeb' yn yr adroddiad ar y prif benderfyniadau.

2.22 Gyda mwy o gydbwysedd o ran dulliau asesu yn y gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru, clywsom am yr amser a'r adnoddau y bydd angen i gyrff dyfarnu eu rhoi ar waith i sefydlu system gadarn o gymedroli asesiadau di-arholiad. Byddai angen ystyried hefyd amserlennu ffenestri asesiadau di-arholiad i gadw cyfrinachedd deunyddiau, yn ogystal â therfynau amser ar gyfer cyflwyno asesiadau di-arholiad i ganiatáu ar gyfer cymedroli, gan ystyried y dyddiad y cyhoeddir canlyniadau TGAU.

2.23 Codwyd hefyd y goblygiadau posibl amrywiol o ddefnyddio mwy o dechnolegau digidol. Teimlai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni'n ddiogel erbyn i'r cymwysterau newydd hyn gael eu hasesu am y tro cyntaf. Roedd y camau a awgrymwyd i liniaru risgiau o'r fath yn cynnwys mabwysiadu dull gweithredu fesul cam, hirdymor.

Effeithiau mewn perthynas â'r tair gwlad

2.24 Soniodd ymatebwyr hefyd am yr effaith y gallai'r cynigion ei chael o safbwynt system gymwysterau tair gwlad[4] megis:

- i ba raddau y bydd cymwysterau TGAU mewn pynciau a gynigir gan gyrff dyfarnu eraill, megis ieithoedd cymunedol, yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr yng Nghymru.
- y gallai mwy o wahaniaethau rhwng cymwysterau olygu bod prifysgolion y DU yn llai tebygol o gydnabod a derbyn y cymwysterau hyn.
- yr angen i roi ystyriaeth briodol i gymaroldeb cymwysterau sy'n rhannu brand cyffredin â rhannau eraill o'r DU, yng Nghymru ac ar draws rhannau eraill o'r DU, wrth wneud penderfyniadau ar gynnwys pwnc a threfniadau asesu.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

2.25 Roedd yr effeithiau ar gydraddoldeb a nodwyd yn ein hymgynghoriad yn ymwneud â:

- ffurfiau ac amseriadau asesiadau
- haenu
- is-adrodd
- maint y cymhwyster a'r cyfnod astudio
- mynediad at offer ac adnoddau, ac
- ystyriaethau economaidd-gymdeithasol ehangach

[4] Wrth gyfeirio at effeithiau mewn perthynas â'r tair gwlad, rydym yn cyfeirio at Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

2.26 Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno ein bod wedi nodi'r holl effeithiau posibl ar ddysgwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac nad oedd unrhyw gamau ychwanegol y gellid eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'r cynigion.

2.27 Dewisodd ymatebwyr roi sylwadau ar yr effaith y gallai'r cynigion ei chael ar y canlynol:

- bechgyn yn cael eu heffeithio'n anghymesur o ganlyniad i gynnydd mewn asesiadau di-arholiad
- hygyrchedd dulliau asesu i bob dysgwr
- cynhwysiant y cynnig, yn enwedig mewn perthynas â dysgwyr ADY
- ymgeiswyr preifat – er nad yw dewis addysgol yn nodwedd warchodedig, tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod llawer yn gwneud y dewis hwn oherwydd materion sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig, megis darparu'n ddigonol ar gyfer anabledd neu oherwydd materion sy'n ymwneud ag ysgolion fel bwlio oherwydd cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd

2.28 Cododd ymatebwyr bryderon hefyd am yr anfantais bosibl i ddysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, y credent y gallent fod yn fwy tebygol o fod â diffyg mynediad at adnoddau addas a chymorth priodol gartref. Yn yr un modd, clywsom bryderon y byddai dysgwyr o'r fath yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan yr effaith ganlyniadol bosibl ar recriwtio a chadw athrawon, a cholli amser addysgu a dysgu o ganlyniad i fwy o asesiadau di-arholiad.

2.29 Er nad yw'n nodwedd warchodedig, gwyddom fod iechyd meddwl a lles dysgwyr yn bryder cyffredin, yn enwedig o ganlyniad i'r pandemig. Disgwyliwn y bydd ymagwedd fwy cytbwys at asesu yn gyffredinol o fudd i iechyd meddwl a lles dysgwyr. Wedi dweud hynny, mae'n bosibl y gallai'r trefniadau hyn gael effaith andwyol ar les meddyliol rhai dysgwyr os ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu hasesu'n barhaus.

2.29 Er mwyn lliniaru rhai o'r effeithiau hyn, awgrymodd ymatebwyr y dylai'r holl waith a asesir gael ei wneud mewn ysgolion, ac o fewn amserlen safonol i ganiatáu i'r rhai sydd â hawl i amser ychwanegol ei gael. Awgrymwyd hefyd y dylai gwaith a asesir fod yn ddienw er mwyn helpu i liniaru rhagfarn anymwybodol.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

2.30 Roedd yr effeithiau ar y Gymraeg (cadarnhaol a negyddol) a nodwyd yn ein hymgynghoriad yn ymwneud â:

- sicrhau cynnig cymwysterau 14-16 cwbl ddwyieithog
- pynciau TGAU newydd ar gael yn y Gymraeg am y tro cyntaf
- cyfleoedd i ddysgwyr werthfawrogi ac ymwneud â'r Gymraeg a dwyieithrwydd, a datblygu ymdeimlad o berthyn yn eu cymuned leol, hunaniaeth Gymreig a dinasyddiaeth fyd-eang
- sicrhau deunyddiau amserol, effeithiol a dwyieithog i gefnogi ysgolion wrth gyflwyno'r cymwysterau newydd
- argaeledd athrawon sy'n siarad Cymraeg

2.31 Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch yr effeithiau y bydd y cynigion yn eu cael ar y Gymraeg. Teimlai llawer fod y cynigion yn amlwg yn arwydd bod y Gymraeg, a'i defnydd o ran cymwysterau, yn flaenoriaeth ac y byddai'r effaith yn gadarnhaol.

2.32 Ystyriwyd bod mwy o gyllid ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg i allu recriwtio athrawon Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â gwell cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd wrth i ddysgwyr symud ymlaen ar hyd y continwwm iaith, yn ffactorau hollbwysig i gyflawni dyheadau ehangach Cymraeg 2050.

2.32 Roedd ymgeiswyr preifat yn cael sylw unwaith eto yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda rhai'n nodi, os bydd cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn profi'n anhygyrch i rai ymgeiswyr preifat, efallai y bydd angen iddynt gymryd cymwysterau eraill fel y cymwysterau TGAU 9-1 a reoleiddir gan Ofqual neu gymwysterau TGAU rhyngwladol, gyda'r mwyafrif helaeth o'r rheiny ar gael trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

3 Ein Hymateb

3.1 Mae anghenion a diddordebau dysgwyr yn flaenllaw ym mhopeth a wnawn, gan gynnwys unrhyw gamau rheoleiddio a gymerwn. Felly mae ein hymagwedd drwyddi draw wedi bod yn ymwybodol o effaith bosibl ein penderfyniadau ar randdeiliaid gwahanol, ac yn enwedig dysgwyr.

3.2 Mae rhywfaint o effaith yn anochel gyda'r newidiadau sydd eu hangen i gymwysterau i'w galluogi i gefnogi gweithrediad y Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm) a helpu i wireddu'r manteision y disgwyliwn eu gweld drwy ein gwaith Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Mae hyn wedi bod yn rhan bwysig o'n penderfyniadau a gwnaethom ystyried y pryderon a godwyd gan ymatebwyr wrth wneud penderfyniadau ar ein dull polisi.

3.3 Gwnaethom ystyried yr effeithiau hyn wrth i'r cynigion gael eu datblygu a cheisio lleihau unrhyw faich ychwanegol cymaint â phosibl. Rydym wedi adolygu'r holl opsiynau gwahanol sydd ar gael i ni, gan gynnwys edrych eto ar yr ystod o gymwysterau TGAU a fydd ar gael mewn rhai pynciau. Fel rhan o'n hymrwymiad i gyd-greu cymwysterau newydd, gwnaethom rannu adborth yr ymgynghoriad gyda'n Gweithgorau Lefel Pwnc (SLWG). Rydym wedi parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid eraill yn ystod y cyfnod hwn ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben gan gynnwys:

- ein Panel Cynghori i Ddysgwyr
- ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid *Cymwys ar gyfer y dyfodol*
- ein Grŵp Cyfeirio Ysgolion a Cholegau
- ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid cyfrwng Cymraeg
- mewnbwn technegol gan CBAC ac arbenigwyr asesu
- trafodaethau gyda cholegau a phrifysgolion, gan gynnwys ein Grŵp Rhanddeiliaid Addysg Uwch
- y cymdeithasau dysgedig ar gyfer gwyddoniaeth (Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol, Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, y Sefydliad Ffiseg, Y Gymdeithas Frenhinol a'r Gymdeithas Addysg Wyddoniaeth)
- Estyn
- Llywodraeth Cymru

3.4 Mewn perthynas â'r pryderon a godwyd ynghylch y baich cynyddol a achosir gan y newidiadau, rydym yn cydnabod y bydd angen amser ar ysgolion a cholegau i ddeall goblygiadau'r newidiadau hyn, ac adolygu eu hymagwedd at addysgu a dysgu. Bydd rhai o'n penderfyniadau hefyd yn gofyn am newidiadau yn y dulliau presennol o ddylunio, darparu a dyfarnu cymwysterau, ac felly bydd effaith o ran costau ac adnoddau ar gyrff dyfarnu.

3.5 Mewn perthynas â nifer yr asesiadau a'r cymwysterau y mae dysgwyr yn eu cymryd, mae'n bwysig pwysleisio bod y Cwricwlwm i Gymru yn ymwneud â dysgu, profiadau a chyflawniadau ehangach. Nid oes angen i'r holl ddysgu ym mlynyddoedd 10 ac 11 arwain at gymwysterau. Bydd penderfyniadau ynghylch nifer a math y cymwysterau y cofrestrir dysgwyr ar eu cyfer yn cael eu gwneud ar lefel ysgol. Wrth wneud hynny, bydd angen iddynt sicrhau amser i ddysgwyr ymgysylltu â dysgu a phrofiadau ehangach yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm.

3.6 Rydym wedi nodi'n flaenorol, er ein bod yn ymwybodol o'r angen i leihau baich ein cynigion, mae rhai effeithiau o ran cost a chyflawni yn anochel. Credwn fod y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud yn sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng yr ystyriaethau amrywiol, a bod yr effeithiau'n gymesur â'r newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn i gymwysterau gyd-fynd â'r Cwricwlwm, a chefnogi'r gwaith o'i weithredu.

3.7 Ar hyn o bryd rydym yn cynllunio rhaglen rheoli newid helaeth i hwyluso cyflwyno'r cymwysterau newydd hyn. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a CBAC i sicrhau bod ysgolion a dysgwyr yn cael eu cefnogi'n llawn yn y broses hon.

3.8 Rydym am wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr ystyried ac ymwneud â themâu trawsbynciol y Cwricwlwm. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod cymwysterau Gwneud-i-Gymru yn adlewyrchu ystod amrywiol o safbwyntiau, cyfraniadau a phrofiadau gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chymunedau ethnig amrywiol ledled Cymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym wedi cyhoeddi datganiad polisi sy'n nodi'n glir ein disgwyliadau o gyrff dyfarnu yn hynny o beth.

3.9 Bydd y gofynion cydraddoldeb presennol o dan ein Hamodau Cydnabod Safonol yn parhau i fod yn berthnasol i'r cymwysterau hyn. Felly bydd yn ofynnol i gorff dyfarnu, wrth gyflwyno ei gymhwyster i'w gymeradwyo, esbonio sut mae'r cymhwyster arfaethedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.

3.10 Wrth wneud hynny (a chan gyfeirio at ein datganiad polisi cyhoeddedig ar gymhwyso themâu trawsbynciol y Cwricwlwm mewn cymwysterau 14-16) rhaid i gorff dyfarnu esbonio sut y mae wedi ceisio barn grwpiau cydraddoldeb ac wedi ystyried y safbwyntiau hynny ac ystyriaethau cydraddoldeb eraill fel rhan o'i waith datblygu cymwysterau.

3.11 Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i ni ystyried dulliau cyrff dyfarnu a'u herio lle bo angen. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb wrth i'r cymwysterau gael eu datblygu a'u darparu gan gyrff dyfarnu.

Asesu di-arholiad

3.12 Yn dilyn adborth i'r ymgynghoriad, rydym wedi cynyddu, lle y bo'n bosibl, y gyfran o asesiadau di-arholiad y mae'n rhaid ei farcio gan y corff dyfarnu, er mwyn helpu i fynd i'r afael â phryderon am yr effaith bosibl ar lwyth gwaith athrawon.

3.13 Wrth nodi o dan ba amodau y dylai dysgwyr gwblhau eu hasesiadau di-arholiad, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu esbonio sut y bydd y gofynion arfaethedig yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng dilysrwydd, dibynadwyedd, hylawrwydd ac ymgysylltiad.

3.14 Er enghraifft, rhaid i'r amodau ar gyfer cynnal asesiadau sicrhau cyn belled â phosibl mai eu gwaith eu hunain yw gwaith y dysgwyr. Rhaid iddynt felly geisio osgoi creu risg y bydd rhai dysgwyr yn cael mantais annheg, er enghraifft trwy gael cymorth ychwanegol gartref, neu drwy ddefnyddio adnoddau ar-lein, gan gynnwys cymwysiadau deallusrwydd artiffisial. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i drefniadau ar gyfer cynnal asesiadau di-arholiad fod yn hylaw er mwyn i ysgolion eu darparu ac fel eu bod yn hygyrch i bob dysgwr. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu ystyried sut y bydd y trefniadau asesu ar gyfer pob tasg yn hylaw tra'n sicrhau tegwch i bob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys gosod lefelau digonol o reolaeth i reoli'r risg y bydd rhai dysgwyr yn cael mantais annheg dros eraill.

3.15 Ar gyfer yr holl asesiadau di-arholiad, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu nodi'r rheolaethau a ddylai fod yn berthnasol i wahanol agweddau ar yr asesiad. Yn benodol, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu nodi'r amod y dylai dysgwyr gadw ato wrth baratoi ar gyfer eu hasesiadau di-arholiad a'u cwblhau. Gallai hyn gynnwys pa ddeunyddiau ac adnoddau y gall dysgwyr gael mynediad iddynt wrth wneud y dasg, lefel yr oruchwyliaeth, faint o amser y gall dysgwyr ei dreulio yn cwblhau tasg, sawl gwaith y gall dysgwyr roi cynnig ar dasg, a oes cyfnod penodol y mae'n rhaid i'r asesiad ddigwydd o'i fewn, neu uchafswm geiriau.

3.16 O ran hylawrwydd, byddwn am weld bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i oblygiadau trefniadau asesiadau di-arholiad arfaethedig o ran adnoddau ysgol a llwyth gwaith athrawon. Er enghraifft, wrth nodi amodau ar gyfer goruchwylio, gallai fod yn ddefnyddiol nodi pa fath o oruchwyliaeth sydd ei hangen a phwy allai ddarparu hyn. Bydd eglurder ar y mathau hyn o fanylion yn helpu ysgolion i gynllunio eu hadnoddau'n effeithiol, ac yn helpu i wneud yn glir sut y gall pob dysgwr gael mynediad i'r asesiad, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion ychwanegol a'r rhai sy'n cymryd cymwysterau fel ymgeiswyr preifat.

Ymgeiswyr Preifat

3.17 Rydym yn cydnabod yr heriau ychwanegol y gall ymgeiswyr preifat eu hwynebu o gymharu â dysgwyr sy'n astudio yn y ganolfan lle byddant yn sefyll eu harholiadau.

3.18 Er nad yw'n bosibl dileu'n llwyr yr holl effeithiau negyddol a nodwyd ar ymgeiswyr preifat, rydym wedi cymryd rhai camau i'w lliniaru. Er enghraifft, rydym wedi lleihau cyfran yr asesiadau di-arholiad mewn rhai pynciau ac wedi egluro'r disgwyliadau ynghylch marcio asesiadau di-arholiad yn fewnol neu'n allanol. Asesir rhai pynciau, megis TGAU Mathemateg a Rhifedd a TGAU Cyfrifiadureg yn gyfan gwbl trwy arholiad; dylai'r rhain felly fod yn symlach i ymgeiswyr preifat gael mynediad iddynt.

3.19 Mae CBAC wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer cofrestru ymgeiswyr preifat ar gyfer cymwysterau TGAU yng Nghymru a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw wrth iddynt ystyried hyn ymhellach yn ystod cam nesaf y broses o ddatblygu cymwysterau.

3.20 Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i fonitro'r effeithiau hyn unwaith y bydd y cymwysterau wedi'u cyflwyno i'r system o fis Medi 2025. Os bydd ymgeiswyr preifat yn wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at un neu fwy o'r cymwysterau TGAU newydd, Gwneud-i-Gymru, byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid perthnasol gan gynnwys Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru, i archwilio ffyrdd o annog canolfannau ymhellach i gefnogi mynediad i gymwysterau ar gyfer ymgeiswyr preifat.

Effeithiau ychwanegol

3.21 Isod, rydym yn nodi effeithiau ychwanegol i'r rhai a nodwyd yn ein Hasesiad Effaith Integredig cyhoeddedig fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau hynny sy'n ymwneud â'n penderfyniadau ar ddyluniad cymwysterau TGAU newydd Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Rhifedd a'r Gwyddorau.

3.22 I gael rhagor o fanylion am sut mae ein hasesiad o effeithiau posibl wedi llywio ein penderfyniadau a'n gwaith, gweler ein hadroddiad *Themâu Cyffredinol* (dogfen a gyhoeddwyd ar wahân sy'n crynhoi'r ymatebion i'r cynigion yn eu cyfanrwydd,) ac adran *Gofynion dylunio TGAU cyffredin* ein prif adroddiad.

Iaith a Llenyddiaeth Cymraeg a Saesneg

3.23 Roedd un o'r effeithiau allweddol a nodwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â maint arfaethedig cymwysterau TGAU newydd Cymraeg a Saesneg. Roedd yr effeithiau hyn yn cynnwys gostyngiad posibl mewn amser addysgu a dysgu ar gyfer y pynciau hyn, hygyrchedd y TGAU newydd i'r un ystod o ddysgwyr, a'r risg na fydd defnyddwyr cymwysterau o bosibl yn deall cymwysterau o'r maint hwn (1.5 TGAU), gan gynnwys colegau, prifysgolion a chyflogwyr. Clywsom hefyd am effeithiau posibl ar ddilyniant a threfniadau ailsefyll ôl-16. [5]

3.24 Fel yr eglurwyd yn ein hadroddiad lefel pwnc ar gyfer TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg a TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, mae ein penderfyniadau ar y ffordd orau i fwrw ymlaen â diwygiadau yn y pynciau hyn wedi'u llywio gan y blaenoriaethau canlynol[6].

- Cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru a galluogi pob dysgwr sy'n astudio TGAU mewn Cymraeg a/neu Saesneg i ymgysylltu â phob un o'r pedwar Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig yn y Maes hwn hyd at 16 oed.
- Ymateb i bryderon a godwyd gan y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad, gan gynnwys:
  - bod y cynnig yn parhau i fod yn hygyrch i'r un ystod o ddysgwyr sy'n astudio TGAU mewn Cymraeg a/neu Saesneg ar hyn o bryd
  - yr angen i sefydliadau AB, sefydliadau AU a chyflogwyr ddeall y cynnig yn dda, er mwyn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gam nesaf eu bywydau

3.25 Er mwyn lliniaru'r risg o ddryswch ynghylch gwerth graddau TGAU 1.5, a chaniatáu i ddysgwyr ennill graddau sy'n adlewyrchu'n decach faint o gynnwys y maent wedi'i gwmpasu drwy gydol eu hastudiaeth, rydym wedi penderfynu creu cymwysterau TGAU gradd unigol a dwyradd cyfn mewn Cymraeg a Saesneg.

[5] Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnig y byddai maint cymwysterau TGAU cyfun newydd Cymraeg a Saesneg hanner ffordd rhwng cymwysterau gradd unigol a dwyradd, ac yn cyfateb i 1.5 TGAU.

[6] Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar y cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg sydd wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn gallu cymryd y cymhwyster TGAU Cymraeg Craidd newydd a L2 Cymraeg Craidd Ychwanegol.

3.26 Gallai creu cymwysterau TGAU dwyradd mewn Cymraeg a Saesneg helpu ysgolion i ddarparu oriau addysgu tebyg i'r hyn a wnânt ar hyn o bryd ar gyfer y pynciau hyn, gan fynd i'r afael â phryderon am effaith llai o amser addysgu ac ar werth a statws y pynciau hyn. Bydd diogelu amser dysgu hefyd yn cefnogi athrawon wrth iddynt symud i ffordd fwy integredig o addysgu a dysgu.

3.27 I liniaru pryderon a godwyd ynghylch hygyrchedd y cymhwyster arfaethedig i bob dysgwr, mae'rcymhwyster gradd unigol yn cynnig llwybr amgen i ddysgwyr a allai elwa o ganolbwyntio ar lai o gynnwys dros gyfnod eu cwrs astudio.

3.28 Un o'r effeithiau negyddol posibl wrth greu cymwysterau TGAU gradd unigol yn y pynciau hyn yw bod mwy o ddysgwyr yn dewis cymryd yr cymhwyster gradd unigol o gymharu â'r nifer sy'n dilyn cymwysterau iaith a llenyddiaeth ar hyn o bryd. Gallai hyn yn ei dro olygu bod dysgwyr yn treulio llai o amser yn dysgu Cymraeg a/neu Saesneg dros y cyfnod astudio o ddwy flynedd. I liniaru'r effaith bosibl hon, rydym wedi nodi'r disgwyliadau canlynol ar gyfer y cynnig TGAU newydd mewn Cymraeg a Saesneg.

- Bwriedir cyflwyno cymwysterau dwyradd a gradd unigol ar draws cwrs dwy flynedd.
- Dylid trin y cymhwyster dwyradd fel y llwybr mwyaf cyffredin a mwyaf addas ar gyfer mwyafrif sylweddol o ddysgwyr
- Gan adlewyrchu eu statws fel cydrannau cwricwlwm gorfodol, disgwyliwn y bydd pob dysgwr yn treulio nifer tebyg o oriau yn dysgu Cymraeg a Saesneg ym Mlynyddoedd 10 ac 11, ni waeth pa gymwysterau y maent yn eu hastudio. Mae'r cymwysterau TGAU gradd unigol yn y pynciau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n gallu cael cymhwyster TGAU, ond y byddai maint y cynnwys yn y cymhwyster dwyradd yn rhwystr sylweddol rhag cyflawni
- Bydd cymwysterau gradd unigol yn cynnig opsiwn mwy hylaw i ddysgwyr ôl-16 sy'n ailsefyll eu TGAU i gyflawni eu gradd darged.

3.29 Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Estyn i sicrhau y bydd cyngor ac arweiniad ar gael i ysgolion, dysgwyr, rhieni, a darparwyr dysgu ôl-16 ar yr opsiynau o ran cymwysterau dwyradd a gradd unigol. Bydd hyn yn ceisio sicrhau bod penderfyniadau a dewisiadau yn cael eu gwneud er budd gorau pob dysgwr.

3.30 Rydym wedi nodi pryderon ynghylch effaith ailsefyll mewn lleoliadau ôl-16. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu nodi ei reolau o ran ailsefyll a chyflwyniadau yn unol â'r gofynion yr ydym yn eu gosod a'u cyhoeddi.

3.31 Er mwyn lliniaru effaith ailsefyll y cymwysterau mwy hyn mewn lleoliadau ôl-16, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu ganiatáu i ddysgwyr sy'n ailsefyll y cymwysterau hyn ddefnyddio canlyniadau'r unedau cyffredin a enillwyd o'u hymgais blaenorol i gyfrannu at naill ai'r cymhwyster gradd unigol neu'r cymhwyster dwyradd. Byddwn yn gweithio gyda'r corff dyfarnu ac yn cadarnhau'r gofynion ailsefyll ôl-16 yn dilyn gwaith dylunio pellach ar y cymhwyster gan y corff dyfarnu.

Mathemateg a Rhifedd

3.32 Ar ôl ystyried pryderon a godwyd ynghylch maint y cynnwys, maint y cymhwyster, ac oriau addysgu, gwnaethom edrych i weld a ellid tynnu unrhyw gynnwys i leihau maint cyffredinol y cymhwyster a'i wneud yn haws i'w addysgu a'i astudio. Fodd bynnag, teimlwyd bod y cynnwys yn cyd-fynd â diben a nodau'r cymhwyster yn ogystal â'r disgrifiadau dysgu yn y cwricwlwm.

3.33 Er mwyn adlewyrchu maint y cynnwys yn well, ac fel y cadarnhawyd yn ein hadroddiad lefel pwnc, rydym felly wedi penderfynu y dylai'r cymhwyster fod yn gymhwyster dwyradd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael digon o amser i astudio'r cynnwys yn fanwl ac i'w galluogi i ddatblygu eu sgiliau mathemategol a rhifiadol yn briodol.

3.34 Yng ngoleuni'r penderfyniad hwn, gwnaethom ystyried yn ofalus a ddylid creu cymhwyster gradd unigol mewn TGAU Mathemateg a Rhifedd yn lle'r dwyradd. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu yn erbyn hyn oherwydd nid yw'n bosibl creu cymhwyster gradd unigol sy'n:

- Ymdrin yn ddigonol â chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer mathemateg a rhifedd
- Tebyg o ran her i'r cwrs dwyradd
- Galluogi dilyniant i gymwysterau ôl-16 fel Mathemateg UG a Safon Uwch.

3.35 Roedd un effaith benodol yn ymwneud â TGAU Mathemateg a Rhifedd a nodwyd gennym yn ein hasesiad cychwynnol yn ymwneud â haenu[7]. Rydym wedi penderfynu y bydd dwy haen asesu ar gyfer y cymhwyster hwn – uwch a sylfaen – gan alluogi'r radd 'C' i fod ar gael i bob dysgwr. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y bydd y cymhwyster yn un unedol, gan ganiatáu i ddysgwyr wneud rhywfaint o asesiadau uned cyn diwedd y cwrs.

[7] Yn ein hymgynghoriad, gwnaethom gynnig y dylai pob cymhwyster newydd, Gwneud-i-Gymru fod yn ddi-haen, ac eithrio TGAU Mathemateg-Rhifedd a TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd).

3.36 Nid ydym wedi nodi a fydd haenau cymysg (lle gellir cofrestru ymgeiswyr ar gyfer haenau gwahanol mewn unedau gwahanol) yn cael eu caniatáu. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu benderfynu a ddylid caniatáu hyn a darparu sail resymegol i gefnogi ei ddull gweithredu. Bydd p'un a fydd haenau cymysg yn bosibl yn dibynnu, ymhlith ffactorau eraill, ar nifer yr unedau sydd wedi'u cynnwys yn y cymwysterau a sut y rhennir y cynnwys ar eu traws.

3.37 Yn debyg i'r cymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg, rydym wedi nodi pryderon ynghylch effaith ailsefyll mewn lleoliadau ôl-16. Rydym yn parhau i archwilio ffyrdd o liniaru'r effaith hon. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o ganiatáu i ddysgwyr ôl-16 gario canlyniadau lefel uned ymlaen wrth ailsefyll y cymhwyster. Byddai hyn yn golygu nad oes rhaid iddynt ailsefyll y cymhwyster cyfan ond dim ond unedau penodol mewn lleoliad ôl-16. Byddwn yn gweithio gyda'r corff dyfarnu ac yn cadarnhau'r gofynion ailsefyll ôl-16 unwaith y bydd wedi datblygu cynllun manwl y cymhwyster

Y Gwyddorau

3.38 Cafodd y cynnig dylunio ar gyfer TGAU newydd yn y Gwyddorau y nifer fwyaf o ymatebion a chafwyd cryn dipyn o anghytuno[8], gyda nifer o effeithiau negyddol posibl wedi'u nodi gan ymatebwyr. Roedd rhai o'r effeithiau hyn yn ymwneud â'n penderfyniadau cynharach i leihau'r ystod o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael, tra bod eraill yn ymwneud â dyuniad arfaethedig y cymhwyster newydd. Roedd yr effeithiau posibl a nodwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

- llai o ddewis i'r dysgwyr hynny sydd â diddordeb arbennig mewn gwyddoniaeth
- dysgwyr yn ymddieithrio ac yn llai tebygol o barhau i astudio gwyddoniaeth ar gyfer UG a Safon Uwch
- cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr yng Nghymru wrth gystadlu am leoedd prifysgol yn erbyn ymgeiswyr o awdurdodaethau eraill a allai fod wedi cymryd gwyddorau ar wahân
- hygyrchedd y TGAU dwyradd newydd i rai dysgwyr, er enghraifft y rhai sydd fel arfer yn cael mynediad i'r TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol unigol presennol
- cynnydd yn llwyth gwaith athrawon o ganlyniad i ddyluniad arfaethedig y TGAU newydd yn y Gwyddorau

[8] Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn canolbwyntio ar ein penderfyniad blaenorol i greu cymhwyster TGAU dwyradd cyfun yn y Gwyddorau i ddisodli'r gyfres bresennol o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth.

3.39 Ar ôl ystyried yn ofalus yr effeithiau posibl a nodwyd gan ymatebwyr, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n bwriad i greu TGAU newydd yn y Gwyddorau (Dwyradd) fel y prif gymhwyster i'w sefyll gan fwyafrif sylweddol dysgwyr Cymru.

3.40 Trwy ein hymgysylltiad parhaus â phrifysgolion yn dilyn yr ymgynghoriad, nid ydym wedi nodi unrhyw sefydliad sydd angen, neu sydd â ffafriaeth glir, am gymhwyster dwyradd neu gymwysterau TGAU ar wahân yn y gwyddorau. Eglurodd prifysgolion hefyd eu bod wedi arfer ystyried ystod o gymwysterau gwyddoniaeth fel rhan o'u proses dderbyn a'u bod yn trin pob llwybr yn gyfartal.

3.41 Mae'r cymhwyster wedi'i ddylunio i sicrhau bod unedau annibynnol mewn bioleg, cemeg a ffiseg a byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu adrodd ar berfformiad pob uned ar adysgrif y dysgwr. Gan y bydd dysgwr yn cwblhau un uned mewn bioleg, cemeg a ffiseg, bydd hyn yn galluogi dysgwyr i weld ble mae eu cryfderau a lliniaru rhai o'r effeithiau a nodwyd mewn perthynas â derbyniadau i gyrsiau STEM prifysgol. Bydd hyn hefyd yn lliniaru rhai o'r effeithiau negyddol posibl a nodwyd mewn ymatebion ar y gweithlu addysgu.

3.42 Mae effaith bosibl arall yn ymwneud â'r uned arfaethedig ar *Dod â'r gwyddorau ynghyd*. Bydd yr uned hon nawr yn cael ei hasesu trwy arholiad gyda deunydd a ryddheir ymlaen llaw. Bydd hyn yn golygu y bydd y cymhwyster hwn yn cael ei asesu'n bennaf trwy arholiadau.

3.43 Mynegodd llawer o ymatebwyr ffafriaeth gref i'w gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu adrodd sut mae dysgwr yn perfformio ym mhob un o ddisgyblaethau'r gwyddorau. Mae'r angen i sicrhau hyder yn y canlyniadau hynny yr is-adroddir, a'u dibynadwyedd, felly wedi cyfyngu ar faint y gallem symud oddi wrth arholiadau ym mhob disgyblaeth. Pryder arall a godwyd oedd effaith mwy o asesiadau di-arholiad ar amser addysgu a dysgu, er enghraifft mewn perthynas â'r cynnig i ddysgwyr gwblhau ymchwiliad. Rydym hefyd wedi ceisio cydbwyso nifer cyffredinol yr asesiadau y byddai dysgwyr yn eu cwblhau pe bai mwy o asesiadau di-arholiad yn cael eu cyflwyno.

3.44 Fel y mae ein hadroddiad lefel pwnc ar gyfer TGAU Y Gwyddorau yn ei gadarnhau, yng ngoleuni'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr, gwnaethom benderfynu ailystyried a ddylid cyflwyno cymwysterau ychwanegol ochr yn ochr â'r cymhwyster dwyradd newydd. Gwnaethom ystyried amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys creu cymwysterau TGAU ar wahân newydd mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg; creu cymhwyster gwyddoniaeth lefel 2 ychwanegol, a chreu TGAU cymhwyster gradd unigol cyfun newydd.

3.45 Yn dilyn ystyriaeth ofalus, a thrafodaethau manwl gydag ystod o randdeiliaid, rydym wedi penderfynu creu TGAU gradd unigol cyfun newydd. Bydd hyn yn disodli'r TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol gradd unigol presennol a bydd yn cynnig cyfle i'r dysgwyr hynny a allai gael trafferth gyda maint y cynnwys yn y cymhwyster dwyradd ennill TGAU fel y gallant ei wneud ar hyn o bryd. Bydd y penderfyniad hwn yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y dysgwyr hynny, ac mae'n adlewyrchu'r dull yr ydym yn ei ddefnyddio ar gyfer cymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg (gweler uchod).

3.46 Yn debyg i'r cymwysterau Cymraeg a Saesneg, un o'r effeithiau negyddol posibl wrth greu un dyfarniad yw y gallai rhai dysgwyr, a fyddai'n cymryd cymhwyster dwyradd ar hyn o bryd, gael eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn. I liniaru'r effaith bosibl hon, rydym wedi datgan yn glir mai'r llwybr cyffredin hwn fydd yr un iawn ar gyfer y mwyafrif sylweddol o ddysgwyr.

3.47 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod rhinweddau'r llwybr cyffredin hwn ar gyfer bron pob dysgwr yn cael eu deall yn dda ac i sicrhau bod prifysgolion yn barod ar gyfer ceisiadau gan ddysgwyr sydd wedi cwblhau'r cymhwyster newydd hwn. Wrth i ni weithio gyda'n gweithgor lefel pwnc ar ddyluniad y cymhwyster gradd unigol newydd, byddwn yn sicrhau bod pwrpas a charfan arfaethedig y dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwnnw hefyd yn glir.

Cynnydd yn nifer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru

3.48 Mae'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud i greu cymwysterau gradd unigol mewn Cymraeg, Saesneg a'r gwyddorau wedi arwain at gynnydd yn nifer y cymwysterau TGAU a fydd ar gael i ddysgwyr o fis Medi 2025 ymlaen. Yn ein hymgynghoriad gwreiddiol, nifer y cymwysterau TGAU oedd 27; mae hyn bellach wedi cynyddu i 30.

3.49 Bydd hyn yn rhoi pwysau rheoleiddiol ychwanegol ar gorff dyfarnu o ran gorfod sicrhau bod mwy o gymwysterau TGAU ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Bydd hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol o ran llwyth gwaith i gorff dyfarnu sy'n datblygu'r cymwysterau hyn i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2025 a 2026.

3.50 Er mwyn lliniaru'r effaith bosibl hon, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth Cymru a CBAC[9] i drafod sut, a phryd, y dylid cyflwyno'r ystod lawn o gymwysterau TGAU i gefnogi'r Cwricwlwm newydd ac ennyn hyder y cyhoedd.

[9] Hyd yma, CBAC yw'r unig gorff dyfarnu sydd wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnig cenhedlaeth newydd o gymwysterau TGAU i ddysgwyr yng Nghymru.

3.51 Mae'r Cwricwlwm newydd wedi'i gynllunio i roi ymreolaeth i ysgolion ac i addasu eu hymagwedd dros amser. Mae'n iawn felly fod yr ystod o gymwysterau sydd ar gael yn parhau i esblygu. Rydym wedi ystyried yn ofalus sut y gellir cyflwyno'r cymwysterau hyn er mwyn lleihau'r anfantais i unrhyw garfan benodol o ddysgwyr wrth i'r cymwysterau newydd hyn ddod ar gael, ac i alluogi ysgolion i ddatblygu eu gallu ar gyflymder priodol a hylaw.

3.52 O ganlyniad i'r trafodaethau hynny, rydym wedi cytuno ar ddull gweithredu a fydd yn sicrhau ystod wedi'i blaenoriaethu o gymwysterau TGAU newydd erbyn 2025 sy'n realistig i'w darparu, tra'n cyflwyno'r newid sylweddol angenrheidiol i alluogi ysgolion i gyflwyno cwricwla eu hysgolion yn hyderus. Bydd cymwysterau newydd pellach ar gael yn 2026 i adeiladu ar yr ystod gychwynnol hon o gymwysterau TGAU a chefnogi gweithrediad y cwricwlwm ymhellach.